

## Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig

### Prif Negeseuon a Chamau

<b>Teitl y Cyfarfod</b>	Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig			<b>Dyddiad</b>	16.05.2019
<b>Rhif y Cyfarfod</b>	16	<b>Amser Dechrau</b>	10:30	<b>Amser Gorffen</b>	2:00
<b>Yn bresennol</b>	Gareth Bevington (Llywodraeth Cymru - Cadeirydd), Louise George (Llywodraeth Cymru), Richard Lowcock James (Llywodraeth Cymru), Wendy Dodds (Llywodraeth Cymru), Helen Bloomfield (Cyfoeth Naturiol Cymru), Mary Lewis (Cyfoeth Naturiol Cymru), Alison Palmer Hargrave (ACA Pen Llŷn a'r Sarnau – cynghorydd EMSO i'r Grŵp Llywio), Jonathan Monk (Grŵp Porthladdoedd Cymru), Trevor Theobald (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Cyngor Sir Penfro), Eve Read (Dŵr Cymru Welsh Water)				
<b>Ymddiheuriadau</b>	Tegryn Jones (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro/Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Rhian Jardine (Cyfoeth Naturiol Cymru), Yolanda Arjona (Cydbwyllgor Cadwraeth Natur), Greg Tomlinson (Ystâd y Goron), Alice Collier (Ystâd y Goron), Maggie Hatton-Ellis (Cyfoeth Naturiol Cymru)				

<b>Rhif</b>	<b>Eitem ar yr Agenda</b>
1	Croeso, cyflwyniadau a threfniadau'r dydd
2	Cydweithio ag WMAAG
3	Adroddiad Blynyddol 2018-19 <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yr ymateb i'r 'ceisiadau am wybodaeth'</li> <li>• Allbynnau a chanlyniadau</li> <li>• Penawdau</li> </ul>
4	Cynllun Gweithredu 2019-20 - ei gymeradwyo <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyllido</li> </ul>
5	Y Camau Nesaf <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymeradwyaeth sefydliadol</li> <li>• Defnyddio logos ar gyfer ei gyhoeddi</li> </ul>
6	Unrhyw fater arall

## **Cyflwyniad**

Mae'r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (MPAMSG) yn sicrhau bod trefniadaeth strategol ar gyfer rheoli pob Ardal Forol Warchoddedig (AFW) yng Nghymru. Mae'r Grŵp yn rhoi cyngor, arweiniad a chyfeiriad i awdurdodau sy'n gyfrifol am reoli AFW. Mae'n hyrwyddo rheolaeth effeithiol ar yr ardaloedd, yn codi proffil y gwaith o'u rheoli ac yn cynyddu cyfraniad awdurdodau rheoli a rhanddeiliaid eraill ledled Cymru.

Daw aelodau'r Grŵp Llywio o'r prif awdurdodau rheoli yng Nghymru, yn unol â Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.

Cynhaliodd y Grŵp Llywio ei 16eg cyfarfod ar 16 Mai 2019 yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn Aberystwyth. Fe welwch fod y prif negeseuon a'r camau gweithredu y penderfynwyd arnynt yn y cyfarfod wedi'u nodi yn y ddogfen hon. Mae cyfrifoldeb ar aelodau'r Grŵp Llywio i roi negeseuon cyson i'w rhwydweithiau.

Os hoffech drafod unrhyw rai o eitemau'r agenda'n fanylach, cysylltwch ag arweinydd eich sector. Os hoffech fanylion cysylltu arweinydd eich sector, eboitiwch Flwch Gweinidog Môr a Physgodfeydd: ([MarineandFisheriesMinisterialMailbox@gov.wales](mailto:MarineandFisheriesMinisterialMailbox@gov.wales))

## **Prif Negeseuon a Chamau**

### Eitem 2: Cydweithio â Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG)

<b>Prif Negeseuon</b>	<b>Camau</b>
<p>Derbyniodd yr aelodau'r diweddaraf am y cynlluniau ar gyfer cynyddu'r cydweithio ar faterion morol ag WMAAG. Gallai hynny arwain at greu is-grŵp newydd i ddelio â bioamrywiaeth gan gwmpasu gwaith y Grŵp Llywio yn ogystal â gwaith atgyfnerthu ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau morol. Bydd angen penderfynu ar waith ac aelodaeth y grŵp newydd. Roedd aelodau'r Grŵp Llywio yn gefnogol i'r syniad mewn egwyddor ac wedi gofyn am adborth ar ôl trafod y syniad gydag WMAAG yn eu cyfarfod nesaf ar 22 Mai.</p>	<p>Bydd Louise yn crynhoi barn WMAAG am y cynigion ar gyfer mwy o gydweithio i'w chyflwyno i'r Grŵp Llywio.</p>

### Eitem 3: Adroddiad Blynyddol 2018-19

<b>Prif Negeseuon</b>	<b>Camau</b>
<p>Cafodd yr aelodau wybod y diweddaraf am baratoi'r Adroddiad Blynyddol. Yn ogystal â'r diweddaraf am hynt y 21 cam yng Nghynllun Gweithredu 2018-2019, cafwyd rhagor o wybodaeth gan bedwar sefydliad am y gwaith rheoli AFW a wnaed ganddynt yn 2018-2019. Er bod yr aelodau'n fodlon ar y cyfan â'r cynnydd sydd wedi'i wneud, codwyd y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Dyblygu gwaith - Nodwyd bod yr wybodaeth a gafwyd gan RSPB Cymru yn awgrymu eu bod yn datblygu cod morol ar gyfer ACA Forol Gogledd Ynys Môn, er bod PLAS eisoes wedi llunio un. Cytunodd Alison i siarad â'r RSPB am hyn.</li><li>• Allbynnau a chanlyniadau - er bod llawer o waith wedi'i wneud i lenwi'r rhan hon, mae bylchau o hyd, yn enwedig o safbwynt Cam 2 sy'n ymwneud â phrosesau rheoleiddio cydsyniad ac o ran gwybodaeth ychwanegol gan</li></ul>	<p>Bydd Alison yn cysylltu ag RSPB Cymru ynghylch y cod morol ar gyfer ACA Forol Gogledd Ynys Môn.</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, RSPB Cymru, y Gymdeithas Cadwraeth Forol</p>

<p>sefydliadau eraill.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Prif Negeseuon yr Adroddiad Blynyddol - cytunodd yr aelodau y byddai'n fanteisiol codi uchafbwyntiau a phenawdau o'r wybodaeth sydd wedi dod i law, a'u cysylltu â'r pum egwyddor rheoli.</li> </ul>	<p>a Dŵr Cymru yn cryfhau eu hadran allbynnau a chanlyniadau o ran ymdrin â'r camau y byddant yn eu cymryd.</p> <p>Bydd LIC/CNC yn codi'r prif negeseuon lle medrant a'u cysylltu â phob un o'r pum egwyddor rheoli.</p> <p>Bydd Alison yn edrych eto ar y diweddariad i Gam 20 ac yn tanlinellu'r cysylltiadau rhyngddo â'r pum egwyddor rheoli.</p>
--	---

Eitem 4: Cynllun Gweithredu 2019-20 - ei gymeradwyo

<b>Prif Negeseuon</b>	<b>Camau</b>
<p>Cytunodd yr aelodau y dylai'r Prosiect Sbwriel Cymunedol fod yn adran ar wahân yn hytrach na dod o dan y Cynllun Gweithredu ar Sbwriel Morol/Partneriaeth Moroedd Glân.</p> <p>Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'n gallu cyllido'r pedwar cam nad oes cymorth ariannol wedi'i neilltuo iddynt eto yn 2019-2020, o gael cymeradwyaeth y Gweinidog. Sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymal 3 y Prosiect Gweithgareddau Anhrwyddadwy</li> <li>• Prosiect Sbwriel Cymunedol</li> <li>• Prosiect i gyfyngu ar yr aflonyddu ar famaliaid ac adar y môr</li> <li>• Prosiect peilot i ymchwilio i effaith pori'r forfa heli ar ansawdd y dŵr yn ACA Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd.</li> </ul>	<p>Bydd Llywodraeth Cymru'n gofyn am gymeradwyaeth y Gweinidog i gyllido pedwar cam nad ydynt wedi cael eu hariannu eto yn 2019-20 a chyhoeddi Cynllun Gweithredu ar Reoli Rhwydwaith AFW ar gyfer 2019-2020 erbyn diwedd Mehefin.</p>

#### Eitem 5: Camau Nesaf

<b>Prif Negeseuon</b>	<b>Camau</b>
<p>Gofynnwyd i'r Aelodau gadarnhau eu bod yn fodlon cymeradwyo Cynllun Gweithredu 2019-20, cyn belled â bod y mân-newidiadau sydd eu hangen yn cael eu gwneud. Gwnaethon nhw gadarnhau eu bod, gan gytuno i roi cadarnhad ysgrifenedig eu bod yn caniatáu defnyddio logos eu sefydliadau ar fersiynau terfynol y Cynllun Gweithredu a'r Adroddiad Blynyddol.</p>	<p>Mân newidiadau i'r Cynllun Gweithredu gan Lywodraeth Cymru a CNC a'u hailanfon i'r Grŵp Llywio w/c 17 Mehefin.</p> <p>Bydd aelodau'r Grŵp Llywio yn cadarnhau'r gymeradwyaeth ac yn rhoi caniatâd i ddefnyddio logos y sefydliadau at ddibenion dylunio ddiwedd mis Mehefin.</p>

#### Eitem 6: Unrhyw Fater Arall

<b>Prif Negeseuon</b>	<b>Camau</b>
<p>Dywedodd Jonathan y byddai Tegryn ac yntau'n mynd gyda Sue Burton, Swyddog Safle Morol Ewropeaidd ACA Forol Sir Benfro i roi tystiolaeth i Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig y Cynulliad Cenedlaethol ar 22 Mai. Mae hyn yn rhan o waith dilynol y Pwyllgor mewn cysylltiad â'r ymchwiliad i reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru.</p> <p>Tynnodd Trevor ein sylw at y fenter ym Mae Ceredigion lle mae busnesau lleol yn gweithio gyda'i gilydd i leihau'r defnydd o blastig untro. Nododd hefyd fod y prosiect Ardal Brofi Ynni Morol (META) yn Nyfrffordd y Ddau Gleddau a'i chyffiniau yn cynnal profion ar ddyfeisiau ynni'r tonnau a'r llanw (mae'r prosiect wedi gofyn i CNC ac i Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau am drwydded). Dywedodd Trevor hefyd am y gwaith y mae Cyngor Sir Penfro yn ei wneud i ddatblygu SPG Awyr Dywyll.</p> <p>Dywedodd fod arolwg o oleuadau tanceri yn y nos sy'n effeithio ar Adar Drycin Manaw yn destun pryder a bod cyfarfod wedi'i alw gydag Ymddiriedolaeth Natur y De</p>	

a'r De-orllewin, ACA Forol Penfro a'u tebyg i weld beth allen nhw ei wneud, gan gynnwys paratoi cyfarwyddyd/inffograffics i'w rhoi i danceri i'w helpu i ostwng goleuadau yn y nos.

Cytunwyd y byddai cyfarfod anffurfiol o Grŵp yr Awdurdodau Perthnasol (RAG - Morol Penfro, CBEEMS, PLAS a Bae Ceredigion) gyda Gareth Bevington yn ddefnyddiol i bawb.

Awgrymodd Mary bod eitem yn cael ei chynnwys yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Llywio ar strwythur trefniadol diwygiedig CNC fydd yn cwmpasu'r Tîm Morol.

Bydd LIC yn edrych ar ddyddiadau.